

# CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT

## Dyffryn Ardudwy & Talybont Community Council

Clerc/Clerk: Mrs Annwen Hughes

annwen@btconnect.com

(Ffon: 01766 780971)

22.08.15

Plas Uchaf,  
TALSARNAU,  
Gwynedd.  
LL47 6YA

Annwyl Gynghorydd,

Ysgrifennaf i ofyn am eich presenoldeb mewn cyfarfod o'r Cyngor **nos Fawrth, Medi 1af 2015** yn Neuadd Gymunedol, Dyffryn Ardudwy am 7.30 o'r gloch. Bwriedir trafod yr Agenda a ganlyn. Bydd posib i chwi ddod i gael golwg ar y ceisiadau cynllunio sydd wedi cael eu derbyn cyn dechrau y cyfarfod o 7.00 o'r gloch ymlaen.

Yn gywir,

*Annwen Hughes*

Clerc

### **AGENDA**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.
3. Cadarnhau cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Gorffennaf 7ed a Awst 11eg 2015.
4. Materion yn codi o'r Cofnodion.
5. Datgan Diddordeb.
6. Materion Cyngor Sir.
7. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhester amgaedig).
  
8. **MATERION YN CODI**
  - a) Cynllun Busnes
  - b) Camerau CCTV
  - c) Neuadd Bentref
  - d) Archwilio'r llochesi bws, mynwentydd a parciau chwarae
  - e) Maes Parcio Traeth Bennar
  
9. Gohebiaeth (gweler rhester amgaedig).
10. Adroddiad y Trysorydd
11. Unrhyw Fater Arall.

### **Ceisiadau Cynllunio wedi dod i law (hyd at 22.08.15)**

Ddim wedi dod i law ar ol y cyfarfod ar yr 11eg o Awst.

### **Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad wedi ei dderbyn arnynt(hyd at 22.08.15)**

Caniatad Adeilad Rhestredig i ychwanegu dau agoriad ffenest a drws yn drychiad deheuol yr estyniad - Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/LB443B) - caniatâu

Cais ol-weithredol i gadw sied bren - 1 Pant Heulog, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/255B) - caniatâu

Adeiladu estyniad unllawr i ffrynt yr eiddo i'w ddefnyddio fel derbynfa ar gyfer y parc gweryslla - Tyddyn Goronwy, Talybont (NP5/58/210G) - caniatâu

Dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu derbynfa newydd - Parc Carafanau Fferm Sarnfaen, Talybont (NP5/58/19J) - caniatâu

Adeiladu ystafell wydr i'w defnyddio fel arwynebedd llawr swyddfa gwerthu ychwanegol - Barmouth Bay Holiday Village, Ffordd Glan y Mor, Talybont (NP5/58/18V) - caniatâu

**Gohebiaeth wedi dod i law (hyd at 22.08.15)**

Mr. Dewi Evans - llythyr ynglyn ar ddau barc chwarae

Parc Cenedlaethol Eryri - llythyr ynghyd a rhestr o ddyddiadau pwyllgorau yr Awdurdod

Ceri Davies - llythyr yn gofyn am wybodaeth ynglyn ar Gofeb

Cymorth Cynllunio Cymru - llythyr o wahoddiad i Blas Tan y Bwlch ar yr 21ain o Fedi

Cyngor Gwynedd - llythyr ynglyn Cod Ymddygiad i Aelodau

**Anfonebau angen eu talu (hyd at 22.08.15)**

Mr. Dewi Evans - £90.00 - edrych ar ol y ddau barc chwarae (Gorffennaf/Awst)

Mrs Annwen Hughes - £294.00 (cyflog) + costau (Gorffennaf/Awst)

Mr. M. J. Kerr - £370.00 - agor bedd